Cymarebau: Gwaith Estyniad

1. Mae clown yn gwerthu balwnau. Yn y bore, roedd ganddo ddwywaith gymaint o falwnau glas nag o falwnau coch. Erbyn y prynhawn, gwerthodd y clown 36 balŵn glas a dim balŵn coch. Os oedd dwywaith gymaint o falwnau coch ar ôl nag o falwnau glas, darganfyddwch gyfanswm nifer y balwnau yn y bore.

2. I gychwyn, roedd gan Charlie deirgwaith cymaint o arian ag oedd gan Sarah. Ar ôl i Sarah dderbyn £28 ar ei phen-blwydd, roedd y gymhareb o arian Sarah i arian Charlie yn 3 : 2. Faint yn fwy o arian sydd gan Sarah na Charlie?

3. Heddiw, cymhareb y wyau cyw iâr i wyau hwyaden ar fferm Mr. Williams yw 3 : 4. Wrth roi'r wyau i mewn i gartonau, torrodd Mr. Williams 12 o'r wyau cyw iâr, ac felly newidiodd y gymhareb i fod yn 1 : 2. Sawl wy cyw iâr oedd gan Mr. Williams ar y cychwyn?

4. Mae mam Sam bedair gwaith oed Sam. Mae ei dad dair blynedd yn hŷn na'i fam. Gyda'i gilydd, cyfanswm oed y tri yw 75 oed. Beth yw oed Sam?

5. Y gymhareb o'r nifer o oedolion i'r nifer o blant mewn parti oedd 12 : 7. Ar ôl i 78 o'r plant adael, newidiodd y gymhareb i fod yn 3 : 1. Sawl plentyn oedd yn y parti ar y cychwyn?